



Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

ARIAN CYFATEBOL

Beth yw arian cyfatebol?

Unrhyw arian y byddwch yn dod ag ef i'r prosiect sy'n lleihau faint rydych yn gofyn i ni amdano. Gallai hyn fod yn arian o'ch cronfeydd wrth gefn eich hun, arian sydd gennych neu y byddwch yn ei godi, grantiau eraill yr ydych wedi'u sicrhau neu'n gwneud cais amdanynt, neu arian y byddwch yn ei godi wrth gynnal y gweithgaredd.

A yw arian cyfatebol yn ofynnol gan Ben y Cymoedd? Na, nid oes gennym isafswm lefel o arian cyfatebol sydd ei angen arnom ond wrth gwrs mae unrhyw gais i'r gronfa yn llawer cryfach os oes elfen o arian cyfatebol.

Pam mae cyllidwyr yn hoffi arian cyfatebol? Mae nid yn unig yn ein helpu i ddosbarthu'r arian sydd ar gael i ni i gefnogi mwy o sefydliadau a busnesau, ond mae hefyd yn dangos i ni eich bod chi, fel busnes neu sefydliad, yn ymroddedig i'r prosiect. Mewn sefyllfaoedd lle rydych wedi codi arian trwy gyllid torfol neu godi arian yn y gymuned, mae'n wirioneddol ddangos cefnogaeth y gymuned ehangach i'ch gweithgaredd.

Beth allai gyfrif fel arian cyfatebol?

1. Eich cronfeydd wrth gefn eich hun
2. Arian rydych wedi'i godi drwy ddigwyddiadau, gweithgareddau, rafflau ac ati
3. Grantiau eraill
4. Rhoddion
5. Cyllid torfol
6. Arian yr ydych eisoes wedi'i fuddsoddi yn ddiweddar
7. Ar gyfer digwyddiadau ac ati gallai fod yn werthiant tocynnau a ragwelir
8. I fusnesau gallai fod yn fenthyciadau banc neu fusnes

Ble gallaf gael gwybod mwy

	Rhondda a Chwm Cynon	Castell-nedd ac Afan	Pob Ardal
Cymuned	Gall Interlink RCT eich cefnogi i chwilio am gyllid a gwneud cais amdano: Arian - Interlink RhCT Mae gan yr awdurdod lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT amrywiaeth o gronfeydd a all fod ar gael (hy Trosglwyddo Asedau / Cronfa Deddf Eglwysi ac ati): Grantiau i Fusnes a'r Trydydd Sector Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Gall CVS CNPT eich cefnogi i chwilio am arian a gwneud cais amdano: Dod o hyd i gyllid - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot Mae gan yr awdurdod lleol CBS CNPT amrywiaeth o gyllid: Grantiau ac ariannu - Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Mae ystod eang o gyllidwyr grant eraill sy'n benodol i'r ardal hon a rhai sy'n gweithredu ledled y DU, ond bydd y ddwy asiantaeth yn y rhes hon yn eich helpu i ganfod cyllid ac felly cysylltwch â nhw yn gyntaf
Busnes	Mae gan yr awdurdod lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf amrywiaeth o gronfeydd a allai fod ar gael (h.y. grantiau Canol Tref / Menter ac ati): Grantiau i Fusnes a'r Trydydd Sector Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Mae gan yr awdurdod lleol CBS CNPT amrywiaeth o gyllid: Grantiau ac ariannu - Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Busnes Cymru: Hafan Busnes Cymru Banc Datblygu Cymru: Benthyciadau i fusnesau Cymru – Band Datblygu

Mentrau Cymdeithasol	Gall Interlink RCT eich cefnogi i chwilio am gyllid a gwneud cais amdano: Arian - Interlink RhCT Saesneg	Gall CVS CNPT eich cefnogi i chwilio am arian a gwneud cais amdano: Dod o hyd i gyllid - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot	Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru: Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru - CGGC Cwmpas: Ein gwasanaethau - Cwmpas
-----------------------------	--	--	--

Mae cannoedd o gyllidwyr eraill yn gwasanaethu'r ardal hon ac mae'r rhai a restrir uchod yn rhai o'r rheini ond yn bwysicach fyth gallant eich cyfeirio a'ch helpu i nodi cyllidwyr eraill a allai fod yn briodol.

A ydych wedi ystyried cyllid torfol?

Beth yw cyllid torfol? Mae cyllid torfol fel arfer yn digwydd ar lwyfan gwefan sy'n caniatáu i fusnesau neu grwpiau cymunedol godi arian. Rydych yn esbonio eich prosiect mewn cyflwyniad i ddenu rhoddion gan gynifer o bobl â phosibl.

Pa lwyfannau allwch chi eu defnyddio i redeg ymgyrch cyllid torfol?

1. **Just Giving: What is Crowdfunding? Advantages, Disadvantages & Benefits**
2. **CrowdFunder: Crowdfunder.co.uk | UK's No.1 Fundraising & Crowdfunding platform**
3. **Go Fund Me: GoFundMe | The #1 Crowdfunding and Fundraising Platform**
4. **Kick Starter: Kickstarter in the UK —Kickstarter**

Ydy cyllidwyr yn hoffi cyllido torfol?

YDYN

Oherwydd yn gyntaf mae'n golygu eich bod yn dod ag arian cyfatebol i'r prosiect yr ydych yn gofyn i ni ei ystyried ac yn ail mae'n dangos bod y gymuned neu'ch aelodau / cefnogwyr wir yn cefnogi'r hyn yr ydych yn ei wneud.

Mae hefyd yn dangos i chi fel grŵp bod gennych chi gefnogaeth gymunedol ac mae'n ffordd wych i chi adeiladu eich cynulleidfa ac ymgysylltiad.



